Senedd Cymru

**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**

# Adroddiad ar y Memorandwm Cydsyniad Offeryn Statudol ar gyfer Rheoliadau Deddf Tai Cymdeithasol (Rheoleiddio) 2023 (Diwygiadau Canlyniadol ac Amrywiol) 2024

Chwefror 2024

senedd.cymru

# 1. Y cefndir

**1.** Gosododd Llywodraeth y DU ddrafft o Reoliadau Deddf Tai Cymdeithasol (Rheoleiddio) 2023 (Diwygiadau Canlyniadol ac Amrywiol) 2024[1] (y Rheoliadau) gerbron Senedd y DU ar 18 Ionawr 2024.

**2.** Mae Rheol Sefydlog 30A yn datgan bod yn rhaid i aelod o'r llywodraeth osod Memorandwm Cydsyniad Offeryn Statudol mewn perthynas ag unrhyw offeryn statudol, neu offeryn statudol drafft, y bydd Gweinidogion y DU yn ei osod gerbron Senedd y DU, sy'n gwneud darpariaeth ("darpariaeth berthnasol") mewn perthynas â Chymru sy'n diwygio deddfwriaeth sylfaenol o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd.

**3.** Ar 19 Ionawr 2024, gosododd Julie James AS, y Gweinidog Newid Hinsawdd (y Gweinidog), Femorandwm Cydsyniad Offeryn Statudol (y Memorandwm)[2] gerbron y Senedd ar gyfer y Rheoliadau, yn unol â Rheol Sefydlog 30A.

**4.** Ar yr un diwrnod, ysgrifennodd y Gweinidog atom i roi gwybod inni am y Memorandwm.[3]

**5.** Mae Llywodraeth Cymru wedi trefnu dadl ar 27 Chwefror 2024 i ystyried cynnig i geisio cytundeb y Senedd i gynnwys darpariaeth berthnasol yn y Rheoliadau.[4]

# 2. Y Memorandwm Cydsyniad Offeryn Statudol

**6.** Mae'r Rheoliadau'n gwneud mân newidiadau i ddarnau amrywiol o ddeddfwriaeth mewn perthynas â rheoleiddio tai cymdeithasol. Yn benodol, mae'r Rheoliadau yn gwneud diwygiadau i *Ddeddf Tai ac Adfywio 2008* (Deddf 2008), o ganlyniad i *Ddeddf Tai Cymdeithasol (Rheoleiddio) 2023* (Deddf 2023).

**7.** Mae angen y newidiadau i Ddeddf 2008 i adlewyrchu newidiadau a wnaed gan Ddeddf 2023. Er enghraifft:

[1] Rheoliadau Deddf Tai Cymdeithasol (Rheoleiddio) 2023 (Diwygiadau Canlyniadol ac Amrywiol) 2024 (drafft) (Saesneg yn unig)
[2] Llywodraeth Cymru, Memorandwm Cydsyniad Offeryn Statudol Llywodraeth Cymru: Rheoliadau Deddf Tai Cymdeithasol (Rheoleiddio) 2023 (Diwygiadau Canlyniadol ac Amrywiol) 2024, 19 Ionawr 2024
[3] Llythyr gan y Gweinidog Newid Hinsawdd, 19 Ionawr 2024
[4] Senedd Cymru: Datganiad a Chyhoeddiad Busnes, 6 Chwefror 2024

- Yn wreiddiol, roedd adran 237 o Ddeddf 2008 yn cynnwys *dau* achos lle gellid dyfarnu iawndal i'w dalu gan ddarparwr tai cymdeithasol cofrestredig preifat. Roedd iawndal yn daladwy pan oedd y *naill achos neu'r llall* yn gymwys. Diwygiodd Deddf 2023 adran 237 drwy ychwanegu dau achos *newydd* lle gallai iawndal godi. Mae iawndal nawr yn daladwy pan fo *unrhyw un* o'r pedwar achos yn gymwys. Nid yw'r cyfeiriad gwreiddiol at "either" yn adran 237 yn briodol mwyach oherwydd bod mwy na dau achos yn awr, felly mae'r Rheoliadau hyn yn newid "either" i "any".

- Mewnosododd Deddf 2023 ddiffiniadau newydd ar gyfer "housing ombudsman", "English body" ac "emergency remedial action" yn Neddf 2008. Yn syml, mae'r Rheoliadau yn ychwanegu'r diffiniadau hynny at y mynegai o dermau diffiniedig yn Neddf 2008.

**8.** Mae'r Rheoliadau y mae'r Memorandwm yn ymwneud â hwy yn ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol ddrafft.

**9.** Yn y Memorandwm, mae'r Gweinidog yn cadarnhau bod Llywodraeth Cymru o'r farn bod y gwelliannau i Ddeddf 2008 yn diwygio deddfwriaeth sylfaenol o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd.[5]

**10.** Er bod Rhan 2 o Ddeddf 2008 yn ymwneud â'r gyfundrefn reoleiddio tai cymdeithasol yn Lloegr a'i bod yn cael effaith ymarferol gyfyngedig yng Nghymru, yn ôl y Gweinidog:

> *"Mae cyfundrefn reoleiddiol Lloegr yn gymwys i ddarparwyr tai cymdeithasol yn Lloegr, y mae nifer bach ohonynt yn berchen ar, neu'n rheoli, unedau tai cymdeithasol yng Nghymru (cyfanswm o ryw 500 o unedau). O'r herwydd, mae'r diwygiadau'n gwneud darpariaeth mewn perthynas â Chymru i'r graddau y maent yn gymwys i'r nifer bach hwnnw o ddarparwyr cofrestredig yn Lloegr sydd â stoc dai yng Nghymru."*[6]

**11.** Ym mharagraffau 14–17 o'r Memorandwm, mae'r Gweinidog yn esbonio pam mae'n briodol i'r Rheoliadau wneud y darpariaethau hyn, gan ddweud:

> *"14. Fel yr amlinellwyd yn y Memoranda Cydsyniad Deddfwriaethol a osodwyd mewn perthynas â thaith Deddf Tai*

[5] Y Memorandwm, paragraff 9
[6] Y Memorandwm, paragraff 9

*Cymdeithasol (Rheoleiddio) 2023, roeddwn o'r farn ei bod yn briodol argymell bod y Senedd yn rhoi cydsyniad i ddarpariaethau'r Ddeddf honno, a oedd â'r nod o wella'r ffordd y mae darparwyr tai cymdeithasol cofrestredig yn Lloegr yn cael eu rheoleiddio.*

*15. Fel y nodir yn y Memoranda Deddfwriaethol hynny ac uchod, er mai ymwneud â'r gyfundrefn rheoleiddio tai cymdeithasol yn Lloegr y mae Rhan 2 o Ddeddf Tai ac Adfywio 2008 ac er mai cyfyngedig yw'r effaith ymarferol y mae'n ei chael yng Nghymru, mae'r diwygiadau i Ddeddf Tai ac Adfywio 2008 yn y Ddeddf a'r Offeryn hwn yn effeithio ar Gymru i'r graddau y maent yn gymwys i'r nifer bach o ddarparwyr cofrestredig yn Lloegr sydd â stoc dai yng Nghymru.*

*16. Fy marn i yw y bydd y Ddeddf honno, o'i gweithredu'n briodol, ac fel y'i cefnogir gan yr offeryn hwn, yn cael effaith gyffredinol gadarnhaol ar brofiadau tenantiaid y rhyw 500 o unedau tai cymdeithasol yng Nghymru sy'n eiddo i ddarparwyr cofrestredig neu sy'n cael eu rheoli gan ddarparwyr cofrestredig sy'n ddarostyngedig i'r gyfundrefn reoleiddio ar gyfer tai cymdeithasol yn Lloegr.*

*17. Rwyf o'r farn, felly, ei bod yn briodol ymdrin â'r darpariaethau hyn yn yr Offeryn hwn."*[7]

# 3. Ystyriaeth y Pwyllgor

**12.** Gwnaethom ystyried y Memorandwm yn ein cyfarfod ar 5 Chwefror 2024.[8]

## Ein barn ni

**13.** Rydym yn fodlon ar y Memorandwm.

**14.** Nodwn fod Llywodraeth Cymru wedi trefnu dadl ar 27 Chwefror 2024 i ystyried cynnig i geisio cytundeb y Senedd i gynnwys darpariaeth berthnasol yn y Rheoliadau.

[7] Memorandwm, paragraffau 14–17
[8] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 5 Chwefror 2024

**Casgliad 1.** Rydym yn croesawu bwriad Llywodraeth Cymru i geisio cytundeb y Senedd i gynnwys darpariaeth berthnasol yn Rheoliadau Deddf Tai Cymdeithasol (Rheoleiddio) 2023 (Diwygiadau Canlyniadol ac Amrywiol) 2024.